# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 20
10/08/20

## Y berth ar dân

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansio a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Rachel Hughes, Joshua a Sophie Montali, & Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

## Fersiwn Beibl.net

Roedd Moses yn gofalu am ddefaid a geifr ei dad-yng-nghyfraith, Jethro, offeiriad Midian. A dyma fe'n arwain y praidd i'r ochr draw i'r anialwch. Daeth at fynydd Duw, sef Mynydd Sinai. Yno, dyma angel yr ARGLWYDD yn ymddangos iddo o ganol fflamau perth oedd ar dân. Wrth edrych, roedd yn gweld fod y berth yn fflamau tân, ond doedd hi ddim yn cael ei llosgi. “Anhygoel!” meddyliodd. “Rhaid i mi fynd yn nes i weld beth sy'n digwydd – pam nad ydy'r berth yna wedi llosgi'n ulw.” Pan welodd yr ARGLWYDD ei fod yn mynd draw i edrych, dyma Duw yn galw arno o ganol y berth, “Moses! Moses!” “Dyma fi,” meddai Moses. A dyma Duw yn dweud wrtho, “Paid dod dim nes. Tyn dy sandalau; ti'n sefyll ar dir cysegredig!” Yna dyma fe'n dweud, “Fi ydy Duw dy dad; Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob.” A dyma Moses yn cuddio'i wyneb, am fod ganddo ofn edrych ar Dduw.



Yna meddai'r ARGLWYDD wrtho, “Dw i wedi gweld sut mae fy mhobl i'n cael eu cam-drin yn yr Aifft. Dw i wedi'u clywed nhw'n gweiddi wrth i'w meistri fod yn gas atyn nhw. Dw i'n teimlo drostyn nhw. Felly dw i wedi dod lawr i'w rhyddhau nhw o afael yr Eifftiaid. Dw i'n mynd i'w harwain nhw o wlad yr Aifft, a rhoi gwlad dda, eang iddyn nhw – tir ffrwythlon lle mae llaeth a mêl yn llifo! Yr ardaloedd ble mae'r Canaaneaid, Hethiaid, Amoriaid, Peresiaid, Hefiaid a Jebwsiaid yn byw. Dw i wedi clywed cri pobl Israel am help, a dw i wedi gweld mor greulon ydy'r Eifftiaid atyn nhw. Felly tyrd. Dw i'n mynd i dy anfon di at y Pharo, i arwain fy mhobl, pobl Israel, allan o'r Aifft.”

*Exodus 3:1-10 Beibl.net*


## Fersiwn syml

Roedd Moses yn gofalu am ddefaid a geifr ei dad yng nghyfraith, Jethro. Un diwrnod wrth iddo arwain y praidd i ochr draw yr anialwch daeth at fynydd Sinai (Horeb). Wrth iddo edrych o’i gwmpas gwelodd berth ar dân. Roedd ganddo ofn i’r tân ledaenu. Aeth yn nes i weld pam nad oedd y berth yn llosgi. Clywodd lais Duw yn galw arno o’r tân,

“Moses! Moses!”.

“Dyma fi,” atebodd Moses. Dywedodd Duw wrtho, “tynna dy sandalau oherwydd mae’r tir hwn yn sanctaidd. Duw Abraham, Isaac a Jacob ydw i.” Cuddiodd Moses ei wyneb oherwydd fod arno ofn edrych ar Dduw.

“Rwyf yn gweld sut mae fy mhobl yn cael eu cam-drin yn yr Aifft ac mi ydwi wedi dod i lawr i’w rhyddhau nhw. Dwi’n dy anfon di i arwain fy mhobl allan o’r Aifft.”



# Cwestiynau i’w Trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:


1. Beth ydy’r peth rhyfeddaf wyt ti wedi ei weld erioed?
2. Beth oedd yn rhyfedd am y berth yn llosgi yn yr hanes?
3. Pwy oedd eisiau siarad gyda Moses?
4. Wyt ti’n meddwl fod Duw eisiau siarad gyda thi?



# Stori i'w lliwio

# Moses a'r berth yn llosgi


www.lambsongs.co.nz Jill Kemp (cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Roedd Pharo wedi gwneud plant Israel yn gaethweision iddo a dyna nhw'n gweddïo'n daer ar i'r Arglwydd eu hachub nhw. Siaradodd Duw â Moses ac fe wnaeth Moses ufuddhau.



Un diwrnod roedd Moses yn y caeau yn gofalu am ddefaid Jethro, ei dad yng nghyfraith.




Arweiniodd Moses y defaid drwy'r anialwch i Fynydd Horeb ble'r oedd digonedd o laswellt da i'r defaid bori.



Yn sydyn gwelodd Moses rywbeth rhyfedd yn y pellter. Roedd perth werdd ar dân ond doedd hi ddim yn llosgi!




Roedd ar Moses ofn pan glywodd lais Angel Duw yn galw arno. "Moses, Moses," meddai'r llais ddaeth o'r berth. "Dyma fi,"atebodd Moses.



Dywedodd Duw,"Tynna dy esgidiau! Rwyt ti'n sefyll ar dir sanctaidd." Felly tynnodd Moses ei esgidiau a nesaodd i edrych ar y berth yn llosgi.



Roedd arno ofn pan glywodd lais Angel yr Arglwydd yn galw arno, "Moses, Moses." "Dyma fi," oedd ateb Moses.



Gwrandawodd Moses ac ufuddhaodd i Dduw pan gafodd ei alw i arwain plant Israel allan o gaethiwed yn yr Aifft, drwy'r anialwch ac i'r wlad roedd Duw wedi ei haddo iddyn nhw.

# Lliwio




Dyma Duw yn galw arno o ganol y berth,
"Moses! Moses!" "Dyma fi," meddai Moses.
Exodus 3 adnod 4

# Gweddi fer

O Dduw, rwyt Ti mor arbennig.
Rwyt Ti mor dda ac mor nerthol.
Diolch i Ti dy fod eisiau siarad gyda fi.
Helpa fi i fod yn barod i wrando arnat Ti.
Amen.



# Posau

## Llenwa'r bylchau

Llenwa'r bylchau i gwblhau fersiwn syml y stori.

Roedd ______ yn gofalu am ______ a geifr ei dad yng nghyfraith, Jethro.
Un diwrnod wrth iddo arwain y praidd i ochr draw yr anialwch daeth at fynydd ______
(Horeb). Wrth iddo edrych o'i gwmpas gwelodd berth ar ______. Roedd ganddo ofn
i'r tân ledaenu. Aeth yn nes i weld pam nad oedd y berth yn ______
Clywodd lais Duw yn galw arno o'r tân, "______!".
"Dyma fi," atebodd Moses. Dywedodd Duw wrtho, "tynna dy ______ oherwydd
mae'r tir hwn yn sanctaidd. Duw Abraham, Isaac a Jacob ydw i."
Cuddiodd Moses ei ______ oherwydd fod arno ofn edrych ar Dduw.
"Rwyf yn gweld sut mae fy mhobl yn cael eu cam-drin yn yr ______ ac mi ydwi wedi
dod i lawr i'w rhyddhau nhw. Dwi'n dy anfon di i ______ fy mhobl allan o'r Aifft."



## Beth ddywedon nhw?

Ar y llun, ysgrifenna'r hyn a ddywedodd Duw a'r ateb roddodd Moses.

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O | I | T | PH | D | S | N | A | I | D | I | M |
| L | FF | L | A | M | A | U | W | I | Y | F | I |
| M | O | S | E | S | N | U | Â | H | FF | W | L |
| I | DD | F | N | G | D | E | FF | E | W | T | O |
| E | R | D | N | O | A | R | G | L | W | Y | DD |
| T | I | E | Â | R | L | NG | CH | P | D | U | A |
| M | C | F | W | H | A | U | B | U | E | A | S |
| T | LL | A | RH | D | U | S | E | F | Y | LL | LL |
| Â | I | I | S | L | I | W | N | R | S | D | O |
| N | B | D | C | E | D | R | Y | CH | C | U | S |
| A | N | O | L | W | P | TH | W | W | L | A | G |
| D | A | L | W | G | S | P | E | R | TH | U | I |

ADDOLI
AIFFT
ARGLWYDD
ARWAIN
DEFAID
DUW
DWEUD
CAS
CREULON
EDRYCH
FFLAMAU
GALW
GWELD
GWLAD
HELP
LLOSGI
MIDIAN
MOSES
OFN
PERTH
SANDALAU
SEFYLL
TÂN
TEIMLO
WYNEB



# Dolenni




Sgetsh bypedau - Y berth ar dân https://youtu.be/lErUgImQO-g

Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/oFr-gEzQnb0

Fideo o’r stori https://youtu.be/vwXZjZhbYss





Cartŵn o’r stori
https://www.youtube.com/watch?v=8kNTUX0mWP8&t=186s

Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim https://arwyrancora.com/


Teyrnas y Teulu - syniadau/gemau https://ww w.youtube.com/channel/UCzhjwum9-XieYxdQY-r1OJw *(cliciwch ‘Subscribe’)*

Adnoddau eraill https://www.prayerspacesinschools.com/prayer-spaces-at-home

# Sialensau

## Enwau coed

Dysga enwau 10 o goed a sut fath o ddail sydd ganddyn nhw.
Beth am wneud casgliad o'u dail a gwneud llyfr bach ohonyn nhw?







## Coeden esgidiau


Gwna siâp coeden gydag esgidiau, 'trainers' a sanau a'u gwneud i edrych fel y berth yn llosgi.



Pan wnei di fynd am dro'r wythnos hon gydag oedolyn, dewch o hyd i lwybr newydd i'w droedio. Ewch i gyfeiriad newydd. Ewch ar lwybr dydych chi erioed wedi ei gerdded o'r blaen.
Meddylia am Moses a'r sialens roddodd Duw iddo i fynd yn ôl i'r Aifft a dweud wrth Pharo am ryddhau pobl Israel o'r wlad honno.







Beth am geisio gwneud model o'r stori gan ddefnyddio Lego?

# Crefft

Yr wythnos hon rwyt ti'n mynd i wneud perth yn llosgi,
ond nid un go iawn wrth gwrs!

## Perth yn llosgi




**Byddi angen:**

Jar wydr wag a glân,
cannwyll fach wedi ei gweithio â batri,
papur 'tissue' coch, oren a melyn,
cerdyn gwyn (neu bapur gwyn),
pensil,
pin ffelt ddu,
siswrn,
glud.





1. Gwna lun o drwnc coeden a'i brigau ar y cerdyn gwyn.



2. Lliwia'r goeden yn ddu.



3. Yn ofalus torra'r llun allan.



4. Gluda'r goeden ar y jar.



5. Torra fflamau coch, oren a melyn allan o'r papur 'tissue.' Gall y fflamau fod yn feintiau gwahanol.



6. Gorchuddia'r jar â glud ac yna glyna'r fflamau yn sownd arni.



7. Pan fydd y jar wedi ei gorchuddio'n gyfan gwbl â'r fflamau, rhwbia'r glud yn ofalus ar ymylon y dail i sicrhau fod y fflamau wedi eu selio.




8. Gosoda'r gannwyll fach wedi ei gweithio â batri y tu mewn i'r jar.

# Gweddi Greadigol

## Sut mae Duw yn siarad â ni?

**Beth i'w wneud:**

- Gwna symbol o'r berth yn llosgi drwy ddefnyddio'r crefft yr wythnos hon.
- Defnyddia gannwyll fach sy'n gweithio â batri a'i gosod yn y jar.
- Eistedda'n ddistaw ac yn llonydd o flaen y jar.
- Gweddïa y bydd Duw'n siarad â thi. Treulia ychydig o amser yn gwrando'n dawel.
- Meddylia am y cwestiwn: Sut mae Duw'n siarad â ni?



**Dyma rai ffyrdd:**

- Trwy'r Beibl,
- Cyngor gan Gristnogion (sy'n unol â'r hyn sydd yn y Beibl)
- Ein cydwybod
- Byd natur

Bydd Duw yn siarad â ni mewn unrhyw ffordd y mae'n ei ddewis!



## Fflamau gweddi

**Bydd angen:**

- Paent coch, oren a melyn
- Papur

**Beth i'w wneud:**

- Rho smotiau o baent coch ar waelod y papur a defnyddia dy fysedd i greu siapiau fflamau coch.
- Gwna'r un fath gyda'r paent oren, ac yna gyda'r paent melyn.
- Wrth i ti greu'r fflamau, meddylia mor arbennig ydy Duw. Mae'n fawr, mae'n nerthol, mae'n garedig, mae'n deg... Meddylia di am eiriau eraill sy'n disgrifio Duw.

## Gofyn cwestiynau

Wyt ti'n adnabod unrhyw un sy'n wirioneddol glyfar? Efallai dy athro neu dy rieni. Os wyt ti eisiau gwybod rhywbeth neu angen help i ddeall, rwyt ti'n gofyn i rywun sy'n gwybod.

Mae Duw yn gwybod popeth felly mae'n dda gofyn cwestiynau iddo.



Dos o hyd i le tawel ac eistedda'n gyfforddus. Nawr gofynna gwestiwn i Dduw a gweld beth allai ei ddweud wrthot ti (yn dy meddyliau). Cofia wirio os ydy'r hyn rwyt ti wedi ei feddwl yn unol â'r hyn sydd yn y Beibl. Rydyn ni'n gwybod bod Duw yn siarad trwy'r Beibl felly gallwn ei ddefnyddio i wirio.

# Rysáit



## Tân Bwytadwy!

**Cynhwysion:**
- Grawnwin coch
- Grawnwin gwyrdd
- Caws 'cheddar'
- 'Twiglets' neu 'Potato Sticks'
- Tameidiau o foron wedi eu tafellu'n denau



**Dull:**
- I wneud tân 'bwytadwy' gosoda 10 o rawnwin wedi eu torri'n hanner mewn siâp cylch.
- Torra'r caws yn siâp fflamau ac yna rho nhw i sefyll gyda'r tafelli o foron tu mewn i'r cylch wedi ei wneud o rawnwin.
- Torra waelodion y moron yn fwy trwchus na'r topiau fel bod eu gwaelodion yn sefyll yn gadarnach.
- Amgylchyna'r fflamau â Twiglets neu 'Potato Sticks' wedi eu torri'n hanner.

# Canu

Iesu, wnei Di siarad â fi
Dw i eisiau clywed dy lais
Ti yw fy Mugail da
Dw i eisiau clywed dy lais.



Hawlfraint 2005 Andy Hughes

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/oFr-gEzQnb0

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) ar gyfer y gân hon, cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org

# Gemau

## Gêm esgidiau

Yn yr hanes sydd yn y Beibl fe ddywedodd Duw wrth Moses am dynnu ei sandalau am ei fod yn sefyll ar dir arbennig.

**Bydd angen:** Esgidiau pawb sy'n chwarae

**Sut i chwarae:**

- Rho esgidiau pawb sy'n chwarae wrth y wal ar un ochr i'r ystafell.
  (Os wyt ti eisiau gwneud y gêm yn anoddach, clyma'r careiau yn ei gilydd)
- Mae pawb sy'n chwarae yn sefyll wrth y wal yr ochr arall i'r ystafell.
- Ar ôl cyfrif i dri, mae'r chwaraewyr yn rhedeg i nôl eu hesgidiau a'u cario nôl at y wal ble wnaethon nhw gychwyn.
- Yr enillydd ydy'r cyntaf i wisgo ei esgidiau yn iawn



## Cuddio yn y tywyllwch

Yn yr hanes, roedd Moses wedi mynd i wlad Midian, ond roedd Duw yn gwybod ble'r oedd Moses.

**Bydd angen:** fflachlamp, ystafell dywyll.

**Sut i chwarae:**

- Mae un chwaraewr yn dal y fflachlamp ac yn aros tu allan i'r ystafell dywyll – dyma'r un fydd yn 'dal'.
- Mae'r daliwr yn cyfrif i 20.
- Mae'r chwaraewyr eraill yn mynd i guddio yn yr ystafell.
- Ar ôl cyfrif i 20, mae'r daliwr yn dod i mewn i'r ystafell ac yn ceisio 'dal' y chwaraewyr eraill trwy ddisgleirio'r fflachlamp arnyn nhw.
- Y person olaf i gael ei ddal ydy'r daliwr nesaf.

